

## **Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith y CCYSAGauC (29 Mehefin 2022)**

### **Nominations for the WASACRE Executive Committee (29 June 2022)**

Mae PUMP enwebiadau ar gyfer TRI sydd ar y Pwyllgor Gwaith

There are FIVE nominations for THREE positions on the Executive Committee

#### **1. Vicky Barlow – CYSAG Sir y Fflint**

Vicky yw Uwch Reolwr Gwella Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint ac mae hi'n rhoi cefnogaeth i CYSAG Sir y Fflint fel rhan o'i swydd.

Astudiodd Vicky Ddiwinyddiaeth yng Ngholeg St Anne, Prifysgol Rhydychen, a gwnaeth gwrs TAR yng Ngholeg Newman, Birmingham. Bu Vicky'n dysgu Addysg Grefyddol (11-18) ac yn Bennaeth Adran mewn dwy ysgol cyn cymryd swydd Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i Wrecsam am chwe blynedd.

Mae gan Vicky brofiad helaeth mewn arwain ysgolion a gwella ysgolion. Bu'n gweithio mewn nifer o ysgolion, i ddau awdurdod lleol ac i'r consortiwm rhanbarthol yn ystod ei gyrrfa.

#### **Vicky Barlow – Flintshire SACRE**

Vicky is the Senior Manager for School Improvement for Flintshire County Council and provides support to Flintshire SACRE as part of her role.

Vicky studied Theology at St Anne's College, Oxford University and completed her PGCE at Newman College Birmingham. Vicky taught Religious Education (11-18) and was Head of Department in two schools before taking up the post of Religious Education Adviser for Wrexham for six years.

Vicky has extensive school leadership and school improvement experience. She has worked within a number of schools, for two local authorities and for the regional consortium during her career.

#### **2. Edward John Evans – CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr**

Fe'm hetholwyd gyntaf i'r Pwyllgor Gwaith yn 2006 ac ers hynny rwyf wedi dal swyddi Ysgrifennydd Cynorthwyo, Is Gadeirydd, Cadeirydd a'r cyn Gadeirydd sy'n dod i ben. Yn ystod fy amser ar y Pwyllgor Gwaith cefais y faint o gynrychioli CCYSAGauC mewn cyfarfodydd gyda gwahanol Weinidogion Addysg, Llywodraeth Cymru, Estyn a Chymwysterau Cymru. Bûm yn cyfarfod, gydag eraill, â swyddogion Llywodraeth Cymru i baratoi at ddechrau'r Cwricwlwm newydd i Gymru gan drafod Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a CGM yn arbennig. Bum yn rhan o drafodaethau gyda'r Gweinidogion Addysg, Kirsty Williams yn arbennig, am enwi Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd a materion eraill oedd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm.

Cefais fy ordeinio yn yr Eglwys yng Nghymru ac rwyf wedi bod yn offeiriad ers 50 mlynedd. Fel rhan o'm gwaith mewn plwyfi, roeddwyn yn helpu nifer o ysgolion lleol a oedd yn cynnwys arwain addoli ar y cyd yn rheolaidd a rhoi gwersi mewn dosbarth o bryd i'w gilydd. Rwyf yn dal i wneud hyn mewn ysgol gyfun leol. Bum yn llywodraethwr nifer o ysgolion cynradd ac rwy'n dal i fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr (ers 2004) Ysgol Uwchradd leol. Bum yn Arolygydd Ysgolion Adran 50, ac rwyf yn aelod o Gyngor Ymgynghorol yr Eglwys yng Nghymru ar Addysg, yn Gadeirydd CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr ac yn Gynrychiolydd Cofrestredig yr Eglwys yng Nghymru ar Bwyllgor Craffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn delio â materion addysgol. Rwyf hefyd yn aelod o banel

Apeliadau Derbyn i ysgolion Eglwysig ar Esgobaeth Llandaf (ac yn achlysuol Mynwy). I'm gwaith ym maes Addysg, fe'm penodwyd yn Ganon Eglwys Gadeiriol Llandaf yn 2007. Mae gen i MA (Cymru) mewn Ffydd ac Addysg.

### **Edward John Evans – Bridgend SACRE**

I was first elected to the Executive in 2006 and since then have held the office of Asst Secretary, Vice Chair, Chair and Immediate Past Chair. During the time I have been a member of the Executive I have had the privilege of representing WASACRE at meetings with successive Education Ministers, Welsh Government, Estyn, and Qualification Wales. I, along with others, met with Welsh Government officials to prepare the beginnings of the new Welsh Curriculum discussing the Humanities AoLE and the matter of RVE in particular. I have been involved, again with others, in discussions with the Education Ministers, Kirsty Williams in particular, about the naming of RS in the new curriculum and other matters pertaining to the new curriculum.

Ordained in the Church in Wales I have been a priest for 50 years and during my time in parishes was heavily involved in a number of local schools which included leading collective worship on a regular basis and occasional class lessons. I still have this role in a local comprehensive school. I have been a governor of various primary schools and am still Chair of Governors (since 2004) of a local Secondary School. I have been a Section 50 Schools Inspector, am a member of the Church in Wales Advisory Council for Education, Chair of Bridgend SACRE and the Church in Wales Registered Representative on the Bridgend County Borough Council Scrutiny Committee dealing with educational matters. I am also a panel member for Admission Appeals to the Church schools on the Diocese of Llandaff (and occasionally Monmouth). For my work in the field of Education I was appointed a Canon of Llandaff Cathedral in 2007. I hold a MA (Wales) in Faith and Education.

### **3. Cyngorydd Dr Louise Brown - CYSAG sir Fynwy**

Byddai'n faint cael fy enwebu am le ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC a gobeithiaf y bydd y CYSAGau yn gallu cefnogi fy enwebiad. Rwyf wedi cymryd diddordeb brwd yn natblygiad CGM ac wedi cyfrannu at drafodaethau ar y pwnc mewn cyfarfodydd o CCYSAGauc.

Rwyf yn Gyngorydd Sir Fynwy, yn Gyfreithiwr Cymwys (ddim yn gweithio mwyach) ac yn gyn Bregethwr Lleol gyda'r Eglwys Fethodistaidd. Mae gen i brofiad o ymchwil ôl-ddoethuriaeth ac rwyf yn Gristion o argyhoeddiad. Rwyf wedi bod yn aelod o GYSAG Sir Fynwy ers 2017 fel cynrychiolydd ffydd ac ar hyn y bryd yn cynrychioli'r awdurdod lleol.

Credaf y byddai fy nghefndir a'm profiad o gymorth i CCYSAGauC, sy'n genedlaethol yn cynrychioli'r tri grŵp ar GYSAGau, sef athrawon, yr awdurdod lleol a chynrychiolwyr pwylgor grŵp A.

Pwylgorau lleol a benodir gan yr Awdurdod Lleol yw CYSAGau a chredaf ei bod yn bwysig fod cynrychiolaeth/profiad o'r 3 grŵp yma. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynrychiolaeth ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC ar hyn o bryd gan y grŵp sy'n cynrychioli awdurdodau lleol, grŵp sydd â rôl allweddol mewn CYSAGau lleol.

Dylai fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r gyfraith helpu hefyd gan i mi gael profiad blaenorol o ddrafftio newidiadau cyfreithiol i Filiau Seneddol.

### **Councillor Dr Louise Brown – Monmouthshire SACRE**

It would be a privilege to be nominated for a place on the Executive of WASACRE and I hope that SACREs are able to support my nomination. I have taken a keen interest in the development of RVE and have contributed to WASACRE meeting debates on this subject.

I am a Monmouthshire County Councillor, a Qualified Solicitor (now non-practising) and former Methodist Church Local Preacher with previous postdoctoral research experience and a committed Christian. I have been a member of Monmouthshire SACRE since 2017 both as a faith and currently a local authority representative.

I believe that my background and experience would assist WASACRE which nationally represents the three groups on SACREs which are teachers, local authority and group A committee representatives.

SACREs are locally appointed committees by the Local Authority and I believe that it is important that there is representation/ experience from all 3 groups that make up SACREs. I am not aware of any current representation on the Executive of WASACRE from the local authority group of representatives who play a key role in local SACREs.

My legal knowledge and understanding should also assist as I have had previous experience of drafting legal amendments to Parliamentary Bills.

#### **4. Mathew Maidment – CYSAG Rhondda Cynon Taf**

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried yr wybodaeth ganlynol i gefnogi fy nghais am enwebiad i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC.

Wedi bod yn athro ers dros bum mlynedd ar hugain, rwyf ar hyn o bryd yn Bennaeth yr adran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Ysgol Gyfun Bryn Celynnog. Cefais fy ethol gyntaf yn aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn 2016 ac rwyf wedi bod yn frwd fy nghefnogaeth i Addysg Grefyddol.

Rwyf wedi bod yn mynchu cyfarfodydd â CBAC a Chymwysterau Cymru ar ran ein mudiad ac wedi gwneud argymhellion er budd athrawon a disgylion yng Nghymru. Ymhlieth fy llwyddiannau, mae perswadio CBAC i ollwng y tâl am benderfyniadau ‘cyfnewid’ cwrs byr TGAU ac, yn fwy diweddar, dylanwadu ar y penderfyniad i wybodaeth ymlaen llaw gael ei rhyddhau i helpu athrawon a disgylion baratoi ar gyfer arholiad TGAU eleni. Gan fod gwasgu ar amser y cwricwlwm, rwyf wedi siarad yn rheolaidd am yr angen i sicrhau fod ysgolion yn cyflawni eu hymrwymiad i gyflwyno AG / CGM addas ac ystyrion, ar draws pob cyfnod allweddol.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru, a'r ffaith fod CGM yn orfodol oddi mewn iddo, yn golygu fod cyfleoedd cyffrous o'n blaenau. Fel mudiad mae gennym ran hollbwysig i'w chwarae i gefnogi cynllunio, gweithredu a monitro rhagleni a chyrsiau sydd yn berthnasol, y n briodol ac yn hygyrch i'r ystod o ddisgylion yn ein hysgolion. Byddwn yn ddiolchgar am y cyfre i barhau i helpu gyda'r rôl hon ac i wasanaethu'r pwylgor os caf fy ailethol fel aelod.

#### **Mathew Maidment – Rhondda Cynon Taf SACRE**

I would be grateful if you would consider the following information in support of my application for nomination to the WASACRE Executive Committee.

Having been a teacher for over twenty-five years, I am currently Head of the Religion, Values and Ethics department at Bryn Celynnog Comprehensive School. I was first elected as a member of the

WASACRE Executive Committee in 2016 and have been passionate in my support for Religious Education.

I have attended meetings with the WJEC and Qualifications Wales on behalf of our organization and have made recommendations in the interests of teachers and pupils in Wales. Notable successes include persuading the WJEC to drop the charge for late GCSE short course ‘cash in’ decisions and, more recently, influencing the decision for advanced information to be released to help teachers and pupils to prepare for this year’s GCSE exam. As curriculum time has been squeezed, I have regularly spoken about the need to ensure that schools fulfil their obligation to deliver appropriate and meaningful RE / RVE, across all key stages.

The Curriculum for Wales, and the mandatory position of RVE within it, makes this an exciting time of opportunity. As an association we have a vital role to play in supporting the design, implementation and monitoring of programmes and courses that are relevant, appropriate and accessible for the range of learners in our schools. I would be grateful for the opportunity to continue to assist with this role and to serve the committee if re-elected as a member.

## **5. Marged Williams and Tyler Lorraine Saunders - CYSAG Bro Morgannwg**

**(Sylwer – mae hwn yn enwebiad i rannu swydd)**

### **Marged Williams**

Rwyf wedi bod yn dysgu am 21 mlynedd ac wedi dysgu mewn tair ysgol wahanol: Ysgol Y Gwynllwyd, Ysgol Basaleg ac rwyf yn Arweinydd Dysgu Astudiaethau Crefyddol yn Ysgol Llanilltud Fawr ym Mro Morgannwg ers yr 10 mlynedd ddiwethaf. Rwy'n arholwr TGAU profiadol ar ran CBAC, ac wedi teithio gyda nhw i gyflwyno cynadleddau ‘Paratoi i addysgu’ trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Rwy'n awdur cyhoeddiedig, ar ôl cyfrannu at ddu Lyfr sydd â'r nod o helpu athrawon i gyflwyno'r manylebau TGAU newydd. Rwyf yn cymryd agwedd blaenweithgar at gyflwyno fy mhwnac ac yn trefnu sawl ymweliad i ddisgyblion o bob grŵp blwyddyn er mwyn cyfoethogi eu profiadau dysgu. Cyn Covid, trefnais gynadleddau adolygu UG ac A2 yng Ngwesty'r Village yng Nghaerdydd ar gyfer disgyblion o ysgolion ar draws de a chanolbarth Cymru. Byddwn yn mwynhau'r cyfle i barhau yn fy'r ôl fel aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC ac edrychaf ymlaen at weld y Gymdeithas yn ystyried fy enwebiad.

### **Tyler Lorraine Saunders**

Rwyf wedi bod yn athrawes Athroniaeth a Chrefydd yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre ers 3 blynedd ac ar hyn o bryd rwy'n mwynhau fy'r ôl fel Pennaeth Adran dros dro. Rwy'n teimlo'n frwd dros fy mhwnac ac yn mwynhau dysgu CA3, CA4 a CA5. Yn CA3 bum yn cymryd rhan mewn cynllunio a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn ein hysgol. Bum yn dysgu pob agwedd o TGAU CBAC yn ogystal ag adrannau Moeseg UG a Safon Uwch. Eleni ymunais â ChYSAG y Fro ac rwyf wedi mwynhau gwrandio a chyfrannu at y gwahanol gyfarfodydd oedd yn trafod y cwricwlwm CGM. Yn fy swydd bresennol, rwyf wedi gwneud ystod o Ddatblygu Proffesiynol Parhaus er enghraifft hyfforddiant hyfforddi gyda CSC, hyfforddiant Cyflawnader Adferol, hyfforddiant Ysgolion Sy'n Ystyriol o Drawma a chyrsiau marcio a gwybodaeth bynciol TGAU. Rwyf bob amser yn ceisio gwella a datblygu fy hun y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae gweithio'n gydweithredol yn rhywbeth rwyf yn ymfalchiö yn ddo a chredaf y bydd CCYSAGauC yn rhoi cyfle i mi gyfrannu'n gadarnhaol at ddyfodol CGM yng Nghymru.

**Marged Williams and Tyler Saunders - Vale of Glamorgan SACRE**

**(N.B. this nomination is a job share)**

**Marged Williams**

I have been teaching for 21 years and have taught at three different schools: Ysgol Y Gwynllwyw, Bassaleg School and have been the Leader of Learning for Religious Studies at Llantwit School in the Vale of Glamorgan for the past 10 years. I am an experienced GCSE examiner on behalf of the WJEC, and toured with them to deliver 'Preparing to teach' conferences through the medium of English and Welsh. I am a published author, having contributed to two books aimed at supporting teachers to deliver the new GCSE specifications. I take a proactive approach at delivering my subject and arrange several visits for pupils of each year group to access in order to enhance their learning opportunities. Prior to Covid, I organized AS and A2 revision conferences at the Village Hotel in Cardiff for pupils from schools across south and mid Wales. I would enjoy the opportunity to continue in my role as a member of the WASACRE Executive Committee and look forward to the Association considering my nomination.

**Tyler Lorraine Saunders**

I have been a teacher of Philosophy and Religion at Pencoedtre High school for the past 3 years and am currently enjoying the role of acting Head of Department. I have a passion for my subject and I enjoy teaching KS3, KS4 and KS5. At KS3 I have enjoyed being involved in the planning and delivery of the Curriculum for Wales in our school. I have taught all aspects of the WJEC GCSE as well as the Ethics sections of the AS and A-Level. This year I have joined the SACRE for the Vale and have enjoyed listening to and contributing to various meetings around the RVE curriculum. Within my current role I have completed a range of CPD for example completing coaching training with CSC, Restorative Justice training, Trauma Informed Schools Training and WJEC marking and subject knowledge courses. I have a passion to constantly improve and develop myself inside and out of the classroom. Working collaboratively is something I pride myself on and I believe WASACRE will provide me with the opportunity to contribute positively to the future of RVE in Wales.